

Cadeirydd Panel

Disgrifiad Swydd

- Cadeirio cyfarfodydd panel, sicrhau bod pob eitem o fusnes yn cael ei thrafod a bod y panel yn gweithredu yn unol â rheoliadau a pholisïau a gweithdrefnau'r asiantaeth.
- Paratoi ar gyfer cyfarfodydd panel, darllen papurau'r panel yn ofalus, gan nodi materion allweddol a hysbysu cynghorydd yr asiantaeth os oes angen i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod yr achos yn ddigonol i gael ei gyflwyno i'r panel.
- Hwyluso cyfraniad gweithgar holl aelodau'r panel wrth iddynt gyfrannu at ystyriaeth y panel o achosion a gwneud argymhellion clir gyda digon o dystiolaeth gyda'r rhesymau dros y rhain.
- Sicrhau bod pawb sy'n mynychu cyfarfodydd y panel yn cael eu trin â pharch a chwrteisi.
- Mynd i'r afael â materion amrywiaeth a hyrwyddo arfer gwrthwahaniaethol bob amser.
- Sicrhau bod cofnodion clir a chywir yn cael eu hysgrifennu, sy'n cofnodi unrhyw amheuan difrifol sydd gan aelodau'r panel, a chymryd rhan mewn gwirio a chytuno ar gofnodion drafft gydag aelodau eraill y panel cyn iddynt gael eu hanfon at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
- Cydgysylltu â'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau a chydag uwch reolwyr eraill yn ôl yr angen.
- Sicrhau, ynghyd â chynghorydd yr asiantaeth, bod uwch reolwyr yn ymwybodol o faterion sy'n peri pryder, o ran achosion unigol a materion mwy cyffredinol.
- Bod yn rhan o'r broses o recriwtio a phenodi aelodau panel rhestr ganolog ac mewn unrhyw ystyriaeth ynghylch terfynu penodiad aelod.
- Adolygu, o bosibl gyda chynghorydd yr asiantaeth, berfformiad aelodau panel rhestr ganolog yn ôl yr angen, ac o leiaf bob blwyddyn.
- Cynorthwyo i ddatblygu, hyrwyddo a monitro polisïau a gweithdrefnau a safonau uchel o waith mewn gwasanaethau maethu yn yr asiantaeth.
- Cynorthwyo i gynllunio hyfforddiant ar gyfer aelodau a chymryd rhan yn hyn o leiaf un diwrnod y flwyddyn.
- Diogelu cyfrinachedd holl bapurau'r panel a thrafodaethau'r panel.
- Cymryd rhan mewn:
 - Penderfynu a yw achos yn ddigonol i'w gyflwyno i'r panel
 - Penderfynu ar bresenoldeb arsylwyr yn y panel.
 - Penderfynu ar gyfranogiad aelod o'r panel sy'n datgan buddiant mewn achos.
 - Penderfynu pryd y gallai panel ychwanegol fod yn angenrheidiol.
 - Paratoi adroddiad blynyddol ar waith y panel.

Manyleb Person

Profiad a Chymwysterau

- Profiad, naill ai'n broffesiynol neu'n bersonol neu'r ddau, o leoli plant gyda theuluoedd maeth a phlant sy'n derbyn gofal i ffwrdd o'u teulu biolegol.

- Profiad o gadeirio cyfarfodydd cymhleth

Gwybodaeth

- Gwerthfawrogiad o effaith gwahanu a cholled ar blant.
- Ymwybyddiaeth o gyfoeth gwahanol fathau o deuluoedd a'u potensial i fodloni anghenion plant.
- Dealltwriaeth o ddiben a swyddogaeth y panel a'r asiantaeth y mae'r panel yn ei gwasanaethu.
- Dealltwriaeth o'r broses faethu ac arfer maethu a'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwaith y panel, neu'r gallu i ddatblygu'r wybodaeth hon yn gyflym.

Gallu

- Awdurdod a gallu i gadeirio cyfarfodydd panel gan sicrhau bod pob eitem fusnes yn cael ei thrafod a bod y panel yn gweithredu yn unol â rheoliadau a pholisïau a gweithdrefnau'r asiantaeth.
- Sgiliau rhyngpersonol a gwranddo rhagorol.
- Gallu cyfathrebu'n glir ac yn dda, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Gallu nodi materion allweddol ac atebion posibl a chyfleu'r rhain yn glir.
- Gallu hwyluso cyfraniad gweithgar holl aelodau'r panel wrth iddynt gyfrannu at ystyriaeth y panel o achosion a gwneud argymhellion.
- Gallu rheoli safbwyntiau cadarn gan aelodau'r panel sydd o bosib yn gwrthdaro a helpu'r panel i ddod i argymhelliad, sy'n ystyried yr holl safbwyntiau hyn.
- Gallu trafod materion â'r asiantaeth a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chydag uwch reolwyr eraill yn ôl yr angen.
- Y gallu, gan weithio gyda chynghorydd yr asiantaeth, i adolygu perfformiad pob aelod o'r panel pan fydd angen, ac o leiaf unwaith y flwyddyn, gan sicrhau bod hon yn broses ddefnyddiol ac adeiladol i aelod y panel a'r panel yn ei gyfarwydd.

Agweddau

- Ymrwymiad i gadw plant yn eu teulu neu eu cymuned eu hunain lle bo hynny'n bosibl a chynnal cyswllt rhwng plant sy'n byw gyda theuluoedd maeth er lles gorau'r plentyn.
- Ymrwymiad i faethu fel ffordd o ddiwallu anghenion plentyn, lle mae'n ymddangos bod hynny er budd pennaf y plentyn.
- Ymrwymiad i ddiogelu a hyrwyddo lles plant mewn gofal maeth.
- Gwerthfawrogi amrywiaeth mewn perthynas â materion yn ymwneud ag ethnigrwydd, crefydd, rhyw, anabledd a rhywioldeb.
- Deall yr angen i sicrhau cyfrinachedd ac ymrwymo iddo.
- Parodrwydd i fagu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion drwy ddarllen, trafod a hyfforddi.
- Parodrwydd i gyfrannu'n adeiladol at yr adolygiad blynyddol o'ch rôl fel Cadeirydd y panel.